



Department  
for Culture  
Media & Sport

# Cynllun Grantiau Cofebion

[www.memorialgrant.org.uk](http://www.memorialgrant.org.uk)

DARLLENWCH HWN YN LLAWN CYN LLENWT'CH CAIS

**Arweiniad i'r Cynllun Grantiau CofebionMefin**

**MEHEFIN 2014**

## Tabl Cynnwys

---

Cyflwyniad	1
Y Cynllun Grantiau Cofebion	2
Rhestr Gwirio Cymhwyster	3
Taliad am y Cais	4
Llenwi'r Cais	5
Rhestr Gwirio'r Cais	7
Pwyntiau Cysylltu	8

# CYFLWYNIAD

Mae'r arweiniad hwn wedi cael ei gynllunio i'ch helpu i lenwi eich cais. *Darllenwch hwn yn ofalus cyn llenwi'r ffurflen gais.* Os oes angen mwy o gymorth arnoch, siaradwch ag un o'n gweithredwyr ar 0845 013 6601. Bydd y gyfradd leol safonol yn cael ei chodi am y galwadau.

Byddwn yn cadw peth o'r wybodaeth a ddarperir ar gyfrifiadur. Bydd y gwybodaeth hon yn cael ei defnyddio i brosesu ceisiadau, grantiau a chynhyrchu ystadegau. Gellir rhannu peth o'r wybodaeth hon gyda sefydliadau eraill sy'n darparu grantiau, fel Cadw, Historic England neu Historic Scotland, i osgoi posibilrwydd gwneud taliadau dyblyg.

## CEFNDIR

Mae'r Cynllun Grantiau Cofebion yn rhoi grantiau tuag at y TAW a delir gan elusennau cofrestredig a grwpiau ffydd sydd wedi'u heithrio rhag cofrestru'n elusennau, wrth adeiladu, atgyweirio a chynnal a chadw strwythurau coffa cyhoeddus. Mae'r cynllun yn ddilys ar gyfer gwaith adeiladu, atgyweirio a chynnal a chadw cofebion ar neu ar ôl 16 Mawrth 2005 yn unig.

Mae'r cynllun wedi'i ariannu ar hyn o bryd tan 31 Mawrth 2016, a bydd yn gweithredu gyda chyllideb flynyddol o oddeutu £0.5 miliwn. Bydd cyllideb fanwl gywir pob blwyddyn ariannol yn cael ei gyhoeddi ar wefan y cynllun bob blwyddyn.

Bydd taliad yn cael ei wneud unwaith y chwarter, a bydd y gyfradd daladwy yn dibynnu ar werth y ceisiadau cymwys a dderbynnir yn y chwarter hwnnw, gyda phob cais yn denu taliad pro rata. Cyfeiriwch at yr adran Taliad am y Cais ar dudalen 4 i gael manylion am y cyfrifiad pro rata.

Uchafswm y grant sy'n daladwy mewn ymateb i unrhyw gais fydd 20% o gostau'r prosiect (h.y. yr uchafswm sy'n daladwy fydd y gyfradd llawn o TAW a dalwyd ar wariant cymwys). Os na ddefnyddir cyfanswm y cyllid mewn unrhyw chwarter, bydd ar gael yn y chwarter dilynol, ond ni ellir ei drosglwyddo rhwng blynnydoedd. Rydym yn cael ein hatal gan

reolau cyfrifeg rhag trosglwyddo unrhyw arian sydd dros ben ar ddiwedd unrhyw flwyddyn i'r flwyddyn ariannol nesaf.

Mae'r cynllun yn cael ei weinyddu gan DCMS ar gyfer y Deyrnas Unedig gyfan.

## Y CYNLLUN GRANTIAU COFEBION

Mae'r cynllun:

- ❖ yn gymwys i elusennau a grwpiau ffydd sydd wedi'u heithrio rhag cofrestru'n elusennau yn unig;
- ❖ yn gymwys ar gyfer adeiladu, atgyweirio a chynnal a chadw cofebion;
- ❖ yn gymwys ar gyfer adeileddau'n unig;
- ❖ yn gymwys ar gyfer cofebion sydd ag arysgrif neu blac sy'n coffáu unigolyn, anifail neu digwyddiad yn unig;
- ❖ yn gymwys ar gyfer cofebion y mae'r cyhoedd yn gallu mynd atynt am o leiaf 30 awr yr wythnos, hyd yn oed os codir tâl mynediad neu bod angen cael allwedd oddi wrth y sawl sy'n cadw'r allwedd yn unig;
- ❖ yn gymwys i gofebion yn y DU a thramor lle mae TAW y DU wedi'i thalu;
- ❖ yn ymwneud â gwaith a gyflawnwyd ar neu ar ôl 16 Mawrth 2005;
- ❖ yn derbyn ceisiadau a wneir am ôl-ddyledion yn unig.

I gael eglurhad pellach ar y pwyntiau uchod, cyfeiriwch at Dudalen 2 yn y llyfryn Arweiniad hwn.

I gael Arweiniad ar waith cymwys, cyfeiriwch at dudalen 3, neu cysylltwch â Desg Gymorth y cynllun ar 0845 013 6601.

# Y CYNLLUN GRANTIAU COFEBION

## ELUSENNAU / GRWPIAU FFYDD

Mae'r cynllun yn gyfyngedig i elusennau a grwpiau ffydd sydd wedi'u heithrio rhag cofrestru'n elusennau.

Mae'n rhaid darparu manylion cofrestru llawn elusen, lle bo'n gymwys. Bydd pob cais felly'n cael ei wirio yn erbyn cronfa ddata cofrestru elusennau fel rhan o'r gweithdrefnau gwirio. Os na ellir gwirio'r manylion a roddir, bydd y cais yn cael ei ddychwelyd.

Mae'n rhaid i grwpiau ffydd sydd wedi'u heithrio rhag cofrestru'n elusennau ddarparu cyfeiriad llawn i gael eglurhad.

Nid yw'r cynllun yn ymwneud â mynegiannau preifat o goffa, fel cerrig beddi neu feddrodau.

## ADEILADWAITH

Mae'r cynllun wedi'i gyfyngu i adeiladwaith. Mae hyn yn cynnwys cofebion traddodiadol fel croesau cerrig, monolithau a cherfluniau, yn ogystal â phlaciau wedi'u gosod ar adeiladau.

Nid yw'r cynllun yn cynnwys unrhyw gofeb nad oes angen ei hadeiladu (e.e. llyfr, portread), neu na ellir ei chyffwrdd (e.e. digwyddiad theatraidd neu gerddorol).

Nid yw adeiladwaith sydd â diben deul yn gymwys o dan y cynllun (e.e. ni fyddai mainc goffa na chae chwarae yn cael eu cynnwys. Er mai'r brif swyddogaeth yw bod yn gofebion, mae gan bob un ddefnydd arall, yn yr enghraifft hon, lle eistedd / cae chwarae). Mae ffenestri gwydr lliw, er bod iddynt ddiben deul, yn gymwys.

Mae gerddi a choed coffa hefyd wedi'u heithrio o'r cynllun, gan nad ydynt yn adeiladwaith na ellir eu hadeiladu na'u hatgyweirio, er y bydd tirweddu bach a phlannu a wneir yn ystod codi adeilad coffa yn gyffredinol yn gymwys.

## TYSTIOLAETH O DDIBEN COFFAOL

Mae'n rhaid bod arysgrif neu blac coffa ar bob cofeb. Nid oes cyfyngiad ar bwnc y tu hwnt i'r gofyniad bod y gofeb yn coffáu unigolyn neu unigolion, anifail neu ddigwyddiad.

Heb blac neu arysgrif yn cadarnhau bwriad coffaol, ni fydd y gofeb yn gymwys o dan y cynllun.

## MYNEDIAD I'R CYHOEDD

Bydd y rhan fwyaf o gofebion wedi'u lleoli mewn ardaloedd sydd â mynediad yn rhad ac am ddim i'r cyhoedd. I warantu'r budd mwyaf i'r cyhoedd, mae'n rhaid i'r cyhoedd allu mynd at y gofeb o leiaf 30 awr yr wythnos. Fodd bynnag, nid oes dim cyfyngiad o ran mynediad 'yn rhad ac am ddim' i'r cyhoedd. Mae cofebion sy'n codi tâl mynediad (e.e. y rheiny ar safleoedd Treftadaeth) hefyd yn gymwys i ymgeisio, os yw holl amodau eraill y cynllun yn cael eu bodloni. Bydd cofebion lle byddai angen cael allwedd yn rhesymol gyfleus oddi wrth y sawl sy'n cadw'r allwedd hefyd yn cael eu cynnwys.

## COFEBION TRAMOR

Mae rhai cofebion yn cael eu hadeiladu yn y DU i'w codi dramor, fel ar feysydd brwydrau'r Rhyfeloedd Byd. Mewn achosion lle mae'r rhain wedi talu TAW y DU, os yw holl amodau eraill y cynllun wedi'u bodloni, maent yn gyfan gwbl gymwys i wneud cais o dan y cynllun.

## CEISIADAU AM ÔL-DDYLEDION

Gellir gwneud taliad am geisiadau yn unig pan fydd anfoneb TAW gwreiddiol gan gontractwyr wedi'i hamgau. Mae'n rhaid i'r anfoneb fod am gwaith sydd eisoes wedi'i gwblhau, ac wedi'i setlo thalu cyn ei chyflwyno o dan y cynllun.

# RHESTR GWIRIO CYMHWYSEDD

CYMWYS	ANGHYMWYS
<ul style="list-style-type: none"><li>• Croes garreg</li><li>• Monolith</li><li>• Plac</li><li>• Cerflun</li><li>• Ffenestri gwydr lliw</li><li>• Mân dirlunio (<i>ochr yn ochr cofeb neu wrth adeiladu cofeb</i>)</li><li>• Gwaredu graffiti</li><li>• Glanhau</li><li>• Adeiladu cofeb</li><li>• Addurno / ail-baentio</li><li>• Ffioedd proffesiynol</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Mainc / sedd</li><li>• Llyfr</li><li>• Portread</li><li>• Cyngerdd / digwyddiad</li><li>• Coeden</li><li>• Gardd</li><li>• Adeiladau coffa (<i>e.e. Llyfrgell, neuadd bentref</i>)</li><li>• Cofebion wedi'u lleoli mewn rhannau o adeiladau dinesig nad ydynt yn agored i'r cyhoedd</li><li>• Deunyddiau'n unig (<i>nid gwaith a gwblhawyd gan gontractwr TAW</i>)</li><li>• Marcwyr beddau / cerrig beddau / beddrodau</li><li>• Cofebion heb fynediad i'r cyhoedd</li></ul>

## WEDI COFRESTRU AT DDIBENION TAW

Mae'n rhaid i gontractwr sydd wedi cofrestru at ddibenion TAW gyflawni'r gwaith cymwys. Ni ellir gwneud cais am ddeunyddiau'n unig: mae'n rhaid iddynt fod wedi'u hymgorffori yn y ffabrig gan gontractwr TAW cofrestredig.

Dylech wirio a yw'r contractwr wedi'i gofrestru ar gyfer TAW, trwy ofyn i nhw am ei rif cofrestru TAW, sy'n rhaid ei ddangos ar yr anfoneb.

Elusennau / grwpiau ffydd sydd wedi'u cofrestru at ddibenion TAW (oherwydd eu bod yn codi tâl mynediad neu'n rhedeg gweithgareddau busnes) ac sy'n talu cyfradd is o TAW, dim ond yn gallu hawlio'r swm y gellir ei adfer oddi wrth Gyllid a Thollau EM (yr Adran Tollau Tramor a Chartref gynt). Mae'n rhaid darparu tystiolaeth o'r cytundeb hwn gyda'r cais.

## ANFONEB TAW

Mae'n rhaid i chi gyflwyno gyda'ch cais **anfoneb TAW wreiddiol** (neu anfoneb wreiddiol wedi'i derbynebu) oddi wrth y contractwr. Ni fydd ceisiadau'n cael eu talu heb dystiolaeth dogfennau gwreiddiol. **Nid yw anfonebau wedi'u llungopïo yn dderbyniol.**

Lle mae anfoneb yn cynnwys gwaith cymwys ac anghymwys, mae'n rhaid gwneud y gwahaniaeth hwn yn eglur naill ai ar yr anfoneb neu yng nghwestiwn 22 yn y cais.

# TALIAD AM Y CAIS

Telir bob chwarter, a'r taliad llawn yn cael ei wneud tua chanol y mis yn dilyn diwedd y chwarter. Er mwyn i'ch cais gael ei ystyried, mae'n rhaid iddo gyrraedd erbyn diwrnod gwaith olaf y chwarter pan fydd arnoch angen taliad. Os codir unrhyw gwestiynau, rhaid iddynt gael eu datrys erbyn y dyddiad cau a roddir. Os ni ellir ddatrys yr ymholiad, neu os na fydd y cais yn cyrraedd o fewn

yr amser, bydd y taliad yn cael ei wneud yn y chwarter dilynol a chanran pro rata cymwys. Nid oes dim eithriad i'r rheol hon.

Mae'r *enghraifft* ganlynol yn dangos sut y caiff canran pro rata ei chyfrifo. Bydd y ganran hon yn cael ei chymhwyso i bob anfoneb o fewn y rhediad, ac nid yw'n benodol i werth y cais.

Chwarter 2 Pro Rata % (dyddiad)			
Gwerth y Ceisiadau Cymwys y gwneir Cais Amdanynt	£150,000.00	(A)	Cyfanswm y ceisiadau cymwys yn ystod y chwarter
Cyllideb MGS	£125,000.00	(B)	Y gyllideb sydd ar gael ar gyfer y chwarter
Â: Cario Drosodd o'r Chwarter Blaenorol	£500.00	(B)	Y swm na ddefnyddiwyd ar diwedd chwarter 1
Llai: Costau Gweinyddol	- £1,000.00	(B)	Dyma gostau'r Ganolfan Wasanaeth ar gyfer gweinyddu'r cynllun
Llai: Rhediad Taliad Ategol	- £50.00	(B)	Dyma'r swm a delir yn y rhediad Taliad Ategol*
Â: Credydau i'r Cynllun Grantiau	£100.00	(B)	Dyma gyfanswm yr holl gredydau i'r cynllun grantiau (h.y. gwrthodiadau BACS)
Y Gyllideb Ddiwygiedig sydd ar gael ar gyfer Taliadau	£124,550.00	(C)	Y gyllideb gyfan sydd ar gael ar gyfer y chwarter dyrannu – h.y. swm yr holl eitemau wedi'u marcio (B)
% Pro Rata wedi'i chymhwyso at bob cais	83.0333%		(C) ÷ (A) – dyma'r canran pro rata a gaiff ei chymhwyso at bob anfoneb

Bydd y manylion chwarterol yn cael eu cynnwys ar Hafan gwefan y cynllun yn y fformat uchod yn union ar ôl trosglwyddo pob rhediad taliad safonol. Ni fydd y Ganolfan Gwasanaeth yn gallu rhoi cyngor ynglŷn â chyfradd ddisgwyliedig y taliad cyn i'r rhediad taliad gael ei gwblhau.

\*Gellir gwneud rhediadau taliadau ategol y tu allan i'r rhediad taliad chwarterol er mwyn ad-dalu unrhyw geisiadau lle mae'r taliadau cyntaf wedi'u gwrthod gan drosglwyddiad BACS, neu i dalu yn dilyn apeladau/cywiriadau. Ni fydd ceisiadau safonol yn cael eu talu trwy rediadau ategol.

Lle mae canran pro rata is wedi'i defnyddio, ni allwch ail-hawlio'r elfen 'goll' yn yr anfoneb.

# ARWEINIAD Y FFURFLEN GAIS

## Adran 1 – Manylion y Gofeb

### CI: A yw'r gofeb yn adeiladwaith?

*I gael ei enwi'n adeiladwaith, mae'n rhaid bod modd adeiladu a chynnal a chadw/atgyweirio'r gofeb. Rhaid iddi fod at ddiben coffáu yn unig. Mae unrhyw gofeb sydd â diben deuol (h.y. llyfr, sedd/mainc) yn anghymwys.*

### C2: A yw'r gofeb yn y DU/tramor?

*Mae rhai cofebion wedi'u leoli dramor (e.e. Cofebion Rhyfel Byd). Ar yr amod holl feini prawf eraill yn cael eu bodloni, a TAW y DU, ei hysgwyddo'n, mae'r rhain yn dderbyniol o dan y cynllun.*

### C3: Rhowch fanylion manwl ynglŷn â ble mae'r gofeb wedi'i lleoli.

*Mae'n rhaid i gofebion fod wedi'u lleoli mewn ardaloedd lle mae'r cyhoedd yn gallu mynd atynt o leiaf 30 awr yr wythnos. Eglurwch yr union leoliad (h.y. parc, mynwent, adeilad).*

### C4: Os ydych yn hawlio am gynnal a chadw neu atgyweirio, pryd y codwyd y gofeb?

*Cadarnhewch pryd y codwyd y gofeb, ac a gafodd yr adeladwaith ei godi'n wreiddiol fel cofeb.*

### C5: A yw'r cyhoedd yn gallu mynd at y gofeb o leiaf 30 awr yr wythnos?

*Cofebion y mae'r cyhoedd yn gallu mynd atynt o leiaf 30 awr yr wythnos yn unig sy'n gymwys o dan y cynllun. Ni wahaniaethir rhwng mynediad yn rhad ac am ddim neu fynediad â thâl, ac mae mynediad trwy gael allwedd oddi wrth y sawl sy'n cadw allwedd hefyd yn gymwys. Nid yw cofebion elusennau preifat y tu ôl i ddrysau caeedig (e.e. cerfluniau mewn ysgolion neu fannau nad ydynt yn rhai cyhoeddus mewn adeiladau dinesig) yn gymwys o dan y cynllun.*

### C8: A oes arysgrif coffa ar y gofeb? Rhowch fanylion.

*Mae angen nodi'r arysgrif coffa yn llawn.*

## Adran 2 – Cyfrifoldeb

### C9: Pwy sy'n gyfrifol am y gofeb – elusen gofrestredig neu grŵp ffydd?

*Mae'r cynllun yn gyfyngedig i elusennau a grwpiau ffydd sydd wedi'u heithrio rhag cofrestru'n elusennau. Awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am gynnal a chadw nifer o gofebion cyhoeddus, ond gan na thelir TAW, mae gwariant awdurdodau lleol yn anghymwys o dan y cynllun.*

*Mae'n rhaid rhoi manylion yr elusen yn llawn er mwyn gwirio'r statws cofrestru. Mae'n rhaid cynnwys ceisiadau grwpiau ffydd yn ffurfiol.*

*Atgoffir grwpiau eglwysig bod angen iddynt gael caniatâd cyfadran neu enwad perthnasol lle bo'n gymwys, o ran gwaith sy'n ymwneud â chofebion mewn eglwys neu fynwent eglwys.*

## Adran 3 – Eich Cais

### C16: Rhowch disgrifiad byr o'r gwaith.

*Os na roddir manylion llawn ar yr anfoneb, llenwch y rhan hon yn y cais. Os nad yw'r anfoneb na chwestiwn 16 yn nodi manylion y gwaith, bydd oedi gyda'r cais, a'i ddychwelyd o bosibl. Ni allwn gyfeirio'n ôl at geisiadau blaenorol; caiff pob cais ei drafod ar wahân.*

### C17: Rhowch dyddiadau ar gyfer y gwaith rydych yn hawlio amdano.

*Gwaith a gyflawnwyd ar ôl 16 Mawrth 2005 yn unig sy'n gymwys o dan y cynllun. Os yw'r anfoneb a gyflwynir yn gysylltiedig â gwaith a ddechreuwyd cyn 16 Mawrth 2005, rhaid datgelu hyn ar y cais.*

*Dim ond TAW a delir ar elfen y gwaith a gyflawnwyd ers 16 Mawrth 2005 a fydd yn cael ei had-dalu trwy'r cynllun hwn.*

### C18: A gyflawnwyd y gwaith gan gontractwr wedi'i gofrestru at ddibenion TAW?

*Gwaith a gyflawnwyd gan gontractwr wedi'u cofrestru at ddibenion TAW yn unig sy'n gymwys. Nid yw deunyddiau'n unig yn dderbyniol. Rhaid i'r anfoneb gynnwys rhif cofrestru TAW y contractwr.*

**C19: A yw'r sefydliad sydd â chyfrifoldeb cyfreithiol dros y gwaith wedi cytuno ar gyfradd effeithiol is o TAW?**

*Lle mae sefydliad yn gallu adhewlio TAW yn rhannol oddi wrth Gyllid a Thollau EM, dim ond y TAW anadferadwy y gellir ei hawlio trwy'r cynllun hwn. Mae'n rhaid gwneud y ganran sy'n gymwys ar gyfer y cynllun hwn yn eglur ar y cais. Yn yr achosion hyn, dylid cyflwyno ceisiadau dim ond pan fydd y cyfraddau perthnasol wedi'u cytuno gyda Chyllid a Thollau EM.*

**C22: Tabl ar gyfer cofnodi anfoneb**

Rhif Anfoneb/ Cyfeirnod	Swm Net	% TAW	% y gwaith cymwys	Swm a hawlr
Rhif anfoneb/ cyfeirnod contractwyr	Y swm heb gynnwys TAW	i'r mwyafrif, bydd yn 20%  Lle gellir adennill TAW oddi wrth Gyllid a Thollau EM, y ganran anadferadwy yw'r % y dylid ei nodi yma (h.y. $55\% \times 0.20\% = 11\%$ )	Mae hyn yn gysylltiedig â'r gwaith yn unig, nid swm y TAW a dalwyd (h.y. byddai gwaith sy'n gyfan gwbl gymwys yn 100%)  Ar gyfer anfonebau sy'n ymwneud â gwaith cyn ac ar ôl 16 Mawrth 2005, nodwch ganran y gwaith cymwys a dalwyd ar ôl y dyddiad hwn.	Y swm y gwneir cais amdano o'r cynllun

**Gellir cyflwyno hyd at 10 anfoneb ar gyfer pob cais.**

**Adran 4 – Eich Manylion Talu**

*Rhaid nodi manylion llawn.*

**BANCAU:** rhaid cynnwys enw'r banc, y cod didoli, enw'r cyfrif a rhif y cyfrif, **RHAID iddo beidio â bod yn hirach nag 8 digid.**

**CYMDEITHASAU ADEILADU:** rhaid cynnwys enw'r gymdeithas adeiladu, y cod didoli, enw'r cyfrif, y gofrestrif a rhif y cyfrif, **RHAID iddo beidio â bod yn hirach nag 8 digid.**

**Adran 5 – Manylion Cyswllt/Talu**

*Yr unigolyn a nodir fel y cyswllt fydd yr unigolyn y caiff taliadau a'r gwaith papur gwreiddiol eu dychwelyd ato. Yr unigolyn hwn hefyd fydd yr unigolyn y byddwn yn cyfeirio unrhyw ymholiadau ato. Gan na allwn drafod gwaith gyda thrydydd parti, rhaid i'r cyswllt fod yn hollol gyfarwydd â'r cais a'r gwaith.*

*Yn achos ymholiadau, byddwn yn ceisio cysylltu â chi ddwywaith dros y ffôn/e-bost. Os na allwn ddatrys yr ymholiad yn lkeyddiannus yn ystod y gawadau hyn, bydd y cais yn cael ei dychwelyd i'w lenwi ymhellach.*

**Adran 6 – Datganiad**

*Gall y llofnodydd fod yn unrhyw un sydd â swydd o fewn y sefydliad sy'n gyfrifol am y gofeb.*



# RHESTR GWIRIO'R CAIS

---

- ❖ Ydych chi wedi llenwi'r cwestiynau'n llawn?
- ❖ Ydych chi wedi cynnwys anfonebau TAW GWREIDDIOL contractwyr?
- ❖ A yw'r anfoneb yn rhoi manylion llawn y gwaith sydd wedi'i wneud?

*Os crynodeb yn unig o'r gwaith sydd arno, nodwch y manylion yng nghwestiwn 16. Nid yw manylion generig (e.e. atgyweiriadau 'amrywiol') yn dderbyniol.*

*Bydd y Cynllun Grantiau Cofebion yn gwirio pob cais ar wahân. Nid ydym yn cyfeirio'n ôl at geisiadau blaenorol. Rhaid i bob cais nodi manylion llawn y gwaith, hyd yn oed os oes ceisiadau blaenorol wedi'u gwneud o dan yr un cytundeb.*

- ❖ Os yw'r anfoneb yn cynnwys gwaith cyn ac ar ôl dechrau'r cynllun (16 Mawrth 2005), a yw hyn wedi'i nodi'n eglur ar yr anfoneb neu'r cais?
- ❖ A yw rhif y cyfrif banc ddim hirach nag 8 digid?
- ❖ A yw'r cais wedi'i lofnodi?
- ❖ A yw'r unigolyn cywir wedi'i enwi'n ohebydd?

*Mae'n rhaid i'r unigolyn hwn allu datrys unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cais. Os oes angen, rhaid iddo gael gwybodaeth yn uniongyrchol oddi wrth y contractwr. Ni fydd y Cynllun Grantiau Cofebion yn trafod unrhyw agwedd ar y cais gyda thrydydd parti.*

# PWYNTIAU CYSWLLT

---

## **CADW**

Plas Carew  
Uned 5/7 Cefn Coed  
Parc Nantgarw  
Caerdydd  
CF15 7QQ  
Ffôn: 01443 336000  
E-bost: [cadw@wales.gsi.gov.uk](mailto:cadw@wales.gsi.gov.uk)

## **HISTORIC ENGLAND**

Historic Buildings, Monuments and Designed  
Landscapes  
Ffôn: 020 7973 3700  
E-bost: [customers@historicengland.org.uk](mailto:customers@historicengland.org.uk)

## **HISTORIC SCOTLAND**

Longmore House  
Salisbury Place  
Edinburgh  
EH9 1SH  
Ffôn: 0131 6688800

## **NORTHERN IRELAND ENVIRONMENT AGENCY**

Waterman House  
5-33 Hill Street  
Belfast BT1 2LA  
Ffôn: 02890 543064

## **ANCIENT MONUMENTS SOCIETY**

St Ann's Vestry Hall  
2 Church Entry  
London  
EC4V 5HB  
Ffôn: 020 7236 3934  
E-bost: [office@ancientmonumentsociety.org.uk](mailto:office@ancientmonumentsociety.org.uk)  
[www.ancientmonumentsociety.org.uk](http://www.ancientmonumentsociety.org.uk)

## **CHURCH MONUMENTS SOCIETY**

E-bost: [churchmonuments@aol.com](mailto:churchmonuments@aol.com)  
[www.churchmonumentsociety.org](http://www.churchmonumentsociety.org)

## **WAR MEMORIALS TRUST**

The Conservation Officer  
42a Buckingham Palace Road  
London  
SW1W 0RE  
Ffôn: 020 7233 7356  
[www.warmemorials.org](http://www.warmemorials.org)

## **THE MAUSOLEA AND MONUMENTS TRUST**

70 Cowcross Street  
London  
EC1M 6EJ  
Ffôn: 020 7608 1441  
E-bost: [mausolea@btconnect.com](mailto:mausolea@btconnect.com)  
[www.mausolea-monuments.org.uk](http://www.mausolea-monuments.org.uk)

## **THE PUBLIC MONUMENTS AND SCULPTURE ASSOCIATION**

70 Cowcross Street  
London  
EC1M 6EJ  
Ffôn: 020 7490 5001 (please leave a message)  
E-bost: [pmsa@btconnect.com](mailto:pmsa@btconnect.com)  
[www.pmsa.org.uk](http://www.pmsa.org.uk)



